Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Datganiad Newyddion

17 Mai 2010

Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol yn methu â chreu mwy o benaethiaid

Mae adroddiad a gyhoeddir heddiw gan Estyn, sef yr arolygiaeth dros addysg a hyfforddiant yng Nghymru, yn datgelu nad yw llawer o athrawon sydd wedi'u hachredu â'r CPCP (Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth) yn dod yn benaethiaid o fewn tair blynedd o gymhwyso.

Mae rheoliadau'r Llywodraeth, a gyflwynwyd yn 2005, yn mynnu bod pob darpar bennaeth mewn ysgolion a gynhelir ac ysgolion arbennig nas cynhelir yn meddu ar y Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP) erbyn iddynt gael eu penodi i'w swydd gyntaf fel pennaeth.

Cynlluniwyd y cymhwyster CPCP yn benodol i greu penaethiaid o fewn tair blynedd i'r ymgeiswyr gymhwyso. Serch hynny, canfu adroddiad Estyn nad yw nifer helaeth yr athrawon CPCP achrededig yn mynd ar drywydd gyrfa fel pennaeth er gwaethaf pa mor boblogaidd yw'r cymhwyster CPCP, gyda rhyw 130 o raddedigion y flwyddyn a 739 o weithwyr proffesiynol wedi cymhwyso ar hyn o bryd.

Mae'r adroddiad yn amlinellu nifer o ffactorau sydd wedi tarfu ar effeithiolrwydd y cymhwyster CPCP; mae'n ymddangos bod diffyg cyfleoedd gyrfaol i athrawon achrededig roi'r cymhwyster CPCP ar waith. Nid yw'r data am nifer y swyddi penaethiaid gwag yng Nghymru yn glir ac mae diffyg amlwg mewn cyfleoedd eraill fel secondiadau neu swyddi penaethiaid dros dro i ddeiliaid CPCP. Canfu arolygwyr hefyd nad oes unrhyw fwriad gan lawer o ymgeiswyr sy'n gwneud cais am raglen y CPCP fod yn bennaeth ond eu bod yn ymgeisio amdani yn absenoldeb hyfforddiant a chymwysterau datblygu proffesiynol eraill.

Mae'r broses ddewis yn dibynnu'n gyfan gwbl ar y wybodaeth sydd ar y ffurflen gais ac mae hyn yn aml yn golygu nad yw'r ymgeiswyr mwyaf priodol yn cael eu dewis i'w hyfforddi ar gyfer y cymhwyster prifathrawiaeth gan na chaiff medrau rhyngbersonol a chyfathrebu eu hasesu.

Yn olaf, nid yw rhaglen hyfforddi'r CPCP wedi cael ei diwygio i adlewyrchu strategaethau a mentrau addysg cyfredol fel y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion, materion hunanarfarnu a materion ariannol.

Yn ei adroddiad, mae'r arolygiaeth yn argymell creu rhaglen hyfforddi newydd y dylai rheolwyr canol ei chwblhau cyn gwneud cais am y CPCP. Caiff awdurdodau lleol eu hannog i weithio'n agosach gyda chyrff llywodraethol i roi mwy o gymorth i athrawon achrededig. Yn ogystal, dylai deunyddiau hyfforddi gael eu diweddaru'n flynyddol a dylai rhaglen hyfforddi'r CPCP gael ei hadolygu er mwyn sicrhau ei bod yn mynd i'r afael â datblygiadau a strategaethau addysg cyfredol.

Meddai Ann Keane, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, *"Mae'n hanfodol bod cyrff perthnasol yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod athrawon yn cael llwybr perthnasol, cydlynol i ddatblygu'r medrau a'r rhinweddau y mae eu hangen er mwyn dod yn benaethiaid hynod effeithiol."*

-DIWEDD-

Gina Carrington
Tîm Cyfathrebu, y Cyfryngau a Marchnata
Estyn

02920 446454

Nodiadau i Olygyddion:

Ynglŷn â'r adroddiad

- Comisiynwyd adroddiad Estyn 'Effaith rhaglen y Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP) ar brifathrawiaeth', gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac mae ar gael yn llawn yn http://www.estyn.gov.uk/cy_thematicreports.asp

- Mae'r sail dystiolaeth yn cynnwys dadansoddiad o 111 o ymatebion holiadur gan ddeiliaid y CPCP; holiaduron oddi wrth awdurdodau lleol; ymchwiliad o brosesau dewis a hyfforddi CPCP; cyfweliadau ag awdurdodau lleol, 28 o ysgolion cynradd ac uwchradd a swyddogion a hyfforddwyr y CPCP; a thrafodaethau â staff Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n gyfrifol am y CPCP.

- Mae'r adroddiad hefyd yn adeiladu ar 'Adolygiad o'r Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol Diwygiedig ar gyfer Prifathrawiaeth' (Estyn, Gorffennaf 2007) ac 'Ymchwil i Brifathrawiaeth' (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2009).

Ynglŷn ag Estyn

Yr Arolygiaeth dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yw Estyn. Ein nod yw cyflawni rhagoriaeth i bawb mewn dysgu yng Nghymru. Gwnawn hyn drwy gynnig gwasanaeth arolygu a chynghori annibynnol, o ansawdd uchel.

Ein gweledigaeth yw cael ein cydnabod fel llais awdurdodol ar ddysgu yng Nghymru drwy arbenigedd ein staff.

Rydym yn annibynnol ar, ond cawn ein hariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (o dan Adran 104 Deddf Llywodraeth Cymru 1998).

I gael mwy o wybodaeth, ewch i'n gwefan www.estyn.gov.uk